Rhif 41 **Yr Hen Wlad** Awst/Medi 2004

## At Gymry Patagonia

**Dyma ni wedi dychwelyd yn ddianaf o Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Casnewydd a'r Cylch. I'r rhai ohonom sydd heb arfer mewn traffordd yr oedd ceisio dilyn yr arwyddion ar yr ynysoedd niferus oedd yn arwain ati yn gryn dasg ac roedd un ffordd, pe digwyddai i rywun fynd arni mewn camgymeriad, yn mynd rhagddi am ugain milltir heb fodd yn y byd i ddod oddi arni. Ymhen diwrnod neu ddau canfuwyd digon o fysus cyhoeddus i oresgyn rhan o'r broblem honno – sydd yn rhad ac am ddim trwy Gymru gyfan i rai dros 60 oed - ac roedd y tywydd anhygoel o braf am yr wythnos gyfan yn peri i'r haul wenu ar bawb a phopeth.**

### Cystadleuaeth Yr Eisteddfod

**Un o'r cyfarfodydd cofiadwy ar faes yr Eisteddfod oedd Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Cymru-Ariannin dan lywyddiaeth Cathrin Williams. Ni threuliwyd ond ychydig funudau ar y cyfarfod busnes a neilltuwyd yr amser i dri pheth:**

**(i) cyhoeddi *Y Gaucho o'r Ffos Halen*,**

**(ii) arwerthiant ar gyfer Canolfan Gymraeg Trelew,**

**(iii) ac Elvey MacDonald yn traddodi ei feirniadaeth ar y gystadleuaeth sydd yn gyfyngedig i bobl y Wladfa. *Ymfudiad Cymry'r Wladfa i ymsefydlu mewn ardal yn Ariannin* oedd y testun. Derbyniwyd 5 ymgais ac roedd y beirniad wrth ei fodd. Dyfarnodd y wobr gyntaf i Eilyw Pritchard, (£90). am adrodd hanes ei deulu yn ymfudo i Comodoro Rivadavia; yr ail i Rosa Jones de Lowndes, Trevelin (£70) am hanes yr ymfudo i Sarmiento a'r drydedd i Gweneira Davies de Quevedo, Trelew (£40) a ysgrifennodd am yr ymfudo i wahanol leoedd. Canmolai yn fawr hefyd y ddau gystadleuydd arall.**

### Cystadleuaeth Yr Hen Wlad

**Ynglŷn â'r gystadleuaeth yn y rhifyn diwethaf, addewais ddwy wobr y tro hwn. Dyma'r ddau enw a dynnwyd o'r het: Alwen Sangiovanni, Trevelin a Lizzie Lloyd, Esquel. Diolch yn fawr iawn i chwi i gyd am eich diddordeb a'ch cefnogaeth.** *Daliwch ati a chofion cynhesaf atoch i gyd. Golygydd: Marian E. Roberts, Gorwelion, Cae Bryn, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7SU ebost: marianelias@cymru1.net*


---

Mae llawer o bethau yn y byd
Yn haeddu cael eu cofio;
Ond er hynny, o bryd i bryd,
Mae llawer yn mynd yn ango.

Hen bennill

## Y Gaucho o'r Ffos Halen

Gwefr i bawb oedd yn bresennol yng Nghyfarfod Blynyddol Cymdeithas Cymru-Ariannin yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Casnewydd a'r Cylch, oedd clywed anerchiad yr awdur Carlos de Ferrari adeg cyhoeddi ei nofel am yr hyn a olygai hanes y Wladfa iddo, a hynny mewn Cymraeg graenus. Roedd ef a'i wraig, Veronica Halliday de Ferrari, yn cynrychioli Gorsedd Beirdd Y Wladfa yn yr Eisteddfod. Gwefr arall oedd darllen y nofel safonol hon a'i chadw'n ofalus i'w hailddarllen yn y dyfodol.



O'r chwith: Carlos Ferrari (yr awdur) a Gareth Miles (y cyfieithydd).


## Arwerthiant

Yn dilyn cyhoeddi'r nofel uchod cafwyd arwerthiant o gerddi yn ymwneud â'r Wladfa, yn cynnwys *Y Capel Unig* gan Irma Hughes de Jones, a hynny dan arweiniad Catrin Morris de Junyent, Trelew, sydd draw yng Nghymru ar hyn o bryd. Eglurodd y byddai'r holl elw yn cael ei neilltuo i Ganolfan Gymraeg Trelew. Roedd y cerddi mewn fframiau ac wedi eu hysgrifennu'n gain gan Sioned Glyn gydag addurniadau aur, glas, coch, gwyrdd a lliwiau eraill. Yn ystod yr wythnos yr oedd cyfle i bobl gynnig pris amdanynt ym mhabell Cymdeithas Cymru-Ariannin, ond os ceid pris uwch yn yr arwerthiant, yna yr uchaf ei bris fyddai'n cael pob llun. Llwyddwyd i godi'r swm anrhydeddus o £1,050.

---

A garo gael, rhodded.
Cadw di dy ardd, ceidw dy ardd dithau.

# Bardd y Gadair




Dr Huw Meirion Edwards, darlithydd yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, a enillodd y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Casnewydd. Lluniodd gasgliad o gerddi mewn cynghanedd gyflawn ar y thema Tir Neb. Enillodd y swm o £750 yn ogystal â chadair yr Eisteddfod. Daw yn wreiddiol o Lanfairpwllgwyngyll, Ynys Môn. Graddiodd mewn Cymraeg a Ffrangeg ym Mangor a derbyniodd ei ddoethuriaeth yn 1993 o Goleg yr Iesu, Rhydychen am astudiaeth o waith Dafydd ap Gwilym a'i gyfoeswyr. "Mae'n canu'n wefreiddiol mewn mannau," meddai'r Prifardd Elwyn Edwards dros ei ddau gydfeirniad, "...... ac mae'n feistr corn ar ei grefft a'i gyfrwng." Cerddi i dor-priodas a geir i ddechrau:

*Mor rhwydd mae'r mân gelwyddau*

*Yn tyfu'n dennyn rhwng dau.....*

Gwacter moesol sydd wrth wraidd yr ail ran ac mae cysgod Medi 11 yn drwm ar y cerddi hynny yn ogystal ag Afghanistan ac Irac. Sôn am eira mawr mis Chwefror y mae'r rhan olaf:

*Heddiw 'roedd ffurf dragwyddol – Eryri,*

*Fel Llŷn ac Enlli, yn rhith lledrithiol,*

*A ninnau'n blant ynghanol – ein man gwyn,*

*Heb un yfory na sôn am feiriol.....*

a'r darlun o'r cudyll yn gwylio'i brae yn dwyn i gof erchyllterau'r meddyg Harold Shipman o Loegr a garcharwyd yn 2003 ac y credir iddo ladd hyd at 215 o gleifion.

# Bardd y Goron



Dr Jason Walford Davies, o Fangor, a enillodd y goron a £750 yn yr Eisteddfod, ar y testun "Egni". Mae'n ddarlithydd yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru, Bangor. "Brynach" oedd ei ffugenw. Y sawl a fu'n gyfrifol am gynllunio a gwneud y goron oedd Helga Prosser,y gwelir ei llun isod.



Dyma'r tro cyntaf iddi wneud coron ac mae'n gobeithio ei bod wedi llwyddo i adlewyrchu'r ardal. "Mae'r goron wedi ei gwneud o ddur wedi ei asio - defnydd sy'n cael ei gysylltu â'r ardal," meddai. "Mae'n seiliedig ar drafnidiaeth ddiwydi-annol de Cymru, y rheilffyrdd, y camlesi a'r ffyrdd mewn cynllun Celtaidd."



Mae'r bardd yn sôn am y crair sydd ganddo ar ei ddesg, sef talp o lo o bwll Cynheidre. Dyma'r talp o lo oedd yn llaw ei daid pan ddihangodd rhag y ffrwydrad yn y pwll, ac fel y dywed y beirniaid, "mae'n grair sy'n cynrychioli holl egnïon y cynfyd yn ogystal â chynrychioli'r gymuned lofaol yn Ne Cymru..... Dinistriwyd y gymuned honno yn derfynol gan y Llywodraeth Doriaidd ac mae pedwaredd ran y gerdd hon yn dychmygu gweld Margaret Thatcher yn gweithio "wrth ei desg/yn nos ddi-gwsg y ddinas." Canmolir y gerdd yn fawr iawn a dywedir: "Os bu bardd yn haeddu Coron erioed, Brynach yw hwnnw." Dyma un dyfyniad yn unig:

*Dychmygaf hi'n gweithio wrth ei desg*
*yn nos ddi-gwsg y ddinas.*
*Rhag oerfel yr haearn* yn ei gwaed*
*mae'r tân nwy yntau'n gweithio'n hwyr*
*I grombil nos, ei flagur yn glinigol las,*
*ei wres yn mygu'r blodau ar segurdod*
*y silff ben tân. Mae ganddi hithau grair –*
*ysgrifbin ag arwest o aur mâl,*
*ei fin fel gylfin gosog. Y fath egni*
*sydd i'w sgrifennu: pob llofnod ganddi'n*
*llosgnod ar gefnau amrwd gwŷr*
*a brofodd fflangell sifftiau ar y ffas......*

(Enw arall ar Mrs Thatcher oedd "y ddynes haearn".)

## O'r Wladfa i weithio yng Nghymru



Methiant fu pob ymgais gan Wendy ac Alvaro Tardioli i roi gwasanaeth Cymraeg i'w cwsmeriaid yn nhafarn Glamorgan Arms ym Mont-lliw ger Abertawe. Felly dyma benderfynu hysbysebu ym Mhatagonia. A'r un a gafodd y swydd oedd Alan Green sydd eisoes wedi dechrau ar ei waith ac eisoes yn plesio'r cwsmeriaid.



*Glamorgan Arms, Pont-lliw.*

"Mae'n siarad Cymraeg yn well nag ydw i," medd Mrs Tardioli. "Mae'n berson neis iawn ac yn weithiwr caled. "Mae'r bobol leol wrth eu boddau yn siarad ag o; dydi ei Gymraeg o fawr gwahanol ond yn burach."

"Rwyf wedi bod yng Nghymru unwaith o'r blaen ac mi wnes i fwynhau fy hun yma," meddai Alan."Roeddwn i wrth fy modd yn cael y swydd."

Dywedodd ar y radio y bwriada aros yno am flwyddyn ond y buasai'n debygol o hiraethu am Y Wladfa erbyn hynny ac eisiau dychwelyd.

Braf oedd gweld ei fam, Margarita Green, ar gwrs Llambed eleni.

# Yr Herald




Mae papur newydd Cymraeg gorau a hynaf Cymru ar fin dod i ben. Papur sydd yn gwasanaethu rhannau helaeth o Wynedd ydyw ond erbyn hyn mae ei gylchrediad wedi dirywio i tua 1,500 yr wythnos a'r rhai sydd yn gweithio arno yn gweithio hefyd i bapurau Saesneg y Cwmni. Cyhoeddir ei chwaer bapur yn yr un swyddfa, sef y "Caernarfon & Denbigh Herald" a neilltuir holl adnoddau'r cwmni i gynhyrchu hwnnw, sydd yn llawer mwy trwchus ac yn cael cylchrediad o tua 20,000. Yn ddiweddar daeth darllenwyr hwnnw hefyd i'w alw yntau yn "Herald". Buasai Yr Herald yn gant a hanner oed y flwyddyn nesaf ond y bwriad yn awr yw ei gynnwys fel Atodiad bob dydd Mercher i'r Daily Post Saesneg dyddiol, sydd hefyd yn eiddo i'r un Cwmni. Mae hon yn ergyd drom iawn i'r Gymru Gymraeg yn y dyddiau anodd hyn ynghanol y mewnfudo mawr, yr holl Saesneg sydd ar y teledu a'r holl bwyslais ar "ddwyieithrwydd" – a hynny ar draul y Gymraeg bob gafael.

---

**Nos Lun Gŵyl y Banc, 30 Awst 2004**


yn y Glamorgan Arms, Pontlliw.

**Noson Lawen**
**a'r elw'n mynd tuag at addysg feithrin Gymraeg yn Y Wladfa.**

Arweinydd y noson - **Mansel Thomas.**
Artistiaid - **Deiniol Rees; Ifan JCB; Lleisiau Lliw; Jac y Do; Elvira Austin a Tito Lewis o'r Wladfa; Sioned Saunders; El Sid (consurwr); a Sioned Jones.**
**Y noson i ddechrau am 7.30. Bar tan 12.**
**Tocyn - £10**

**Bwyd ar gael o 7 - 8.30.**

# Tom Gravell



*Y Bonwr a'r Fns Gravell yng Ngŵyl y Glaniad, 1997*

Bu farw'r Bonwr Tom Gravell ar Fehefin 26 yn 91 mlwydd oed. Roedd Y Wladfa yn agos iawn at ei galon a bu'n ymwelydd cyson yna ar hyd y blynyddoedd. Bu'n eithriadol o garedig wrth rai o'r Wladfa a fu'n fyfyrwyr yng Ngholeg Harlech a cholegau eraill a chyfrannodd yn hael i goffrau Cymdeithas Cymru-Arianninun y bu'n drysorydd iddi am dros ugain mlynedd. Fe'i hetholwyd yn Llywydd Anrhydeddus wedyn. Er mor fregus oedd ei iechyd yn ddiweddar, bu'n ffyddlon iawn i gyfarfodydd y Gymdeithas i'r diwedd.

Yn 1932 dechreuodd weithio fel contractwr a gwerthwr glo mewn lle bach yng Nghydweli. Datblygodd y lle bach yn fodurdy mawr a bellach mae Cwmni Gravell, Cydweli yn cyflogi 60 o weithwyr ac yn arbenigo ar geir Renault. Ei ddau fab a'i wyrion sydd bellach yng ngofal y busnes. Bu farw Mrs Gravell yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Ar ddechrau'r haf eleni, a Tom Gravell bellach yn Ysbyty Mynydd Mawr, Y Tymbl, ysgrifennodd ei fab, Dafydd, at raglen radio Dai Jones i ofyn iddo chwarae record o Gôr Godre'r Aran i'w dad. Sylw Dai Jones oedd: "Tasai pobol Patagonia'n gwybod ei fod yn cwyno mi fuasen nhw yno i gyd."



*Margarita Green, Trevelin, a Sandra de Pol, gynt o Drevelin ond yn awr yn athrawes yng Nghymru, yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Casnewydd.*

# Anrhydeddu Gwyddonydd Enwog

Eleni oedd y tro cyntaf erioed i Eisteddfod Genedlaethol Cymru anrhydeddu rhywun sydd wedi cyfrannu i faes gwyddoniaeth. Y sawl a dderbyniodd yr anrhydedd oedd Yr Athro Glyn O Phillips.



Cafodd ei eni yn Rhosllannerchrugog yn 1927 a graddiodd gydag anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Cemeg ym Mangor. Derbyniodd ddoethuriaeth mewn Athroniaeth ac yna mewn gwyddoniaeth am ei waith ymchwil mewn carbohydradau. Enillodd gymrodoriaeth i Sefydliad Ynni Atomig Harwell ac ar ôl dwy flynedd yno ymunodd â staff Coleg y Brifysgol yng Nghaerdydd yn 1954.

Ar ôl bod yn Athro Cemeg ym Mhrifysgol Salford aeth i Nigeria yn 1970 i sefydlu Prifysgol Benin. Roedd yn dymuno dychwelyd i Gymru ac yn 1975 cafodd ei benodi yn Brifathro cyntaf Athrofa Gogledd-Ddwyrain Cymru.

Ar hyn o bryd ef yw Cadeirydd Trosglwydd Ymchwil Cyf a Chwmni Ymchwil Hidrocolloid Phillips Cyf ac ymgynghorydd i sawl sefydliad diwydiannol.

Cyhoeddodd nifer o erthyglau am ei faes arbenigol, effaith pelydrau niwclear ar feinwe dynol a saernïo bio-ddefnyddiau newydd ar gyfer gwella clwyfau. Mae'n awdur neu'n olygydd 43 o lyfrau. Ef oedd Golygydd *Y Gwyddonydd*, cylchgrawn a lwyddai i drafod pynciau dyrys mewn Cymraeg graenus a dealladwy a bathu geirfa newydd dderbyniol. Ym Mehefin 2003 fe sefydlwyd Canolfan Ymchwil Glyn O Phillips yn Athrofa'r Gogledd Ddwyrain lle mae'n dal i ymchwilio.

Yr Athro Glyn O. Phillips yw Cadeirydd Cronfa Canmlwyddiant Y Wladfa.

## Penawdau'r Newyddion, Awst 30

- Mae Adam Price, un o aelodau seneddol Plaid Cymru yn San Steffan, Llundain, yn arwain galwadau ar i'r Prifweinidog Tony Blair fynd ar brawf yn y senedd mewn cysylltiad â'r rhesymau a roddodd o dros ryfela yn erbyn Irac. Gelwir y dacteg hon yn "uchel-gyhuddo".
- Bu farw Owain Glyn Jones yn 68 oed, sef "Now" Hogiau Llandegai. Ef oedd y bugail gwyllt enwog yn y gân "Defaid William Morgan" a chanai'r organ geg.
- Penodwyd Cadeirydd newydd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gan Y Cynulliad am y tair blynedd nesaf. Ond codwyd nyth cacwn trwy ddewis Meri Huws, gan mai ail oedd hi o ran nifer y pleidleisiau a gafodd. Penderfynodd y Llywodraeth beidio â dewis yr enw a ddaeth ar ben y rhestr am eu bod am gael aelod o'u Plaid hwy eu hunain, sef y Blaid Lafur. Bydd y Cadeirydd yn derbyn cyflog o £31,000 y flwyddyn am ddau ddiwrnod o waith.

# Geiriadurwr Cymraeg-Rwsieg



Ym Moscow mae Dmitri Hrapov, 25 oed, yn byw a dechreuodd ddysgu Cymraeg yn y Brifysgol yno ddwy flynedd yn ôl. Darllen llyfrau Rwsieg am y Brenin Arthur a chwedlau eraill a barodd iddo ymddiddori yn y lle cyntaf.

Cymraeg Canol a ddysgai yn y Brifysgol ond dechreuodd ddilyn cwrs "Catchphrase" ar y rhyngrwyd. Mae eisoes wedi bod yng Nghymru ac yng Nghanolfan Iaith Nant Gwrtheyrn. Mae'n siarad Cymraeg yn rhugl erbyn hyn.

Drwy gyfrwng rhaglen gyfrifiadurol arbennig mae wedi llwyddo i greu geiriadur sy'n cyfieithu geiriau o'r Gymraeg i'r Rwsieg ac o'r Rwsieg i'r Gymraeg. Golyga hyn na fydd angen i'r rhai sydd am ddysgu Cymraeg yn Rwsia orfod dibynnu ar wybodaeth o'r Saesneg i wneud hynny o hyn ymlaen gan na fydd angen geiriadur Saesneg-Rwsieg a Chymraeg-Sesneg arnynt.

## Yn Eisteddfod Casnewydd

**Rini Griffiths**, Esquel. Braf oedd gweld ei brawd Rene yno hefyd.




Isod (chwith) **Elvira Austin**, sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru (Port Talbot) a **S. Eleri Hughes** sydd newydd gael ei phenodi yn brif diwtor Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn ac a fu yn athrawes yn Y Wladfa.





# Bryn Terfel



Am y bumed flwyddyn yn olynol mae Bryn Terfel wedi trefnu Gŵyl Gerdd yn Y Faenol ger Bangor gyda rhai o gantorion mwyaf a mwyaf addawol y byd. Roedd yr Ŵyl yn parhau am dridiau ddiwedd Awst a hynny allan yn yr awyr agored ond bod y perfformwyr eu hunain yn canu ar lwyfan mawr cysgodol. Neilltuwyd un noson i ganu Cymraeg, sef opera Nia Ben Aur a chaneuon gan Dafydd Iwan.

Ym mis Mai eleni dyfarnwyd Bryn Terfel nid yn unig yn ganwr mwyaf Prydain ond hefyd yr un a gynhyrchodd record orau'r flwyddyn. Gwerthodd ei record ddiweddaraf dros 300,000 o gopïau a daeth ar frig siart y Canu Clasurol ym Mhrydain. Ond ar yr un pryd daeth y record hon hefyd yn chweched o ran poblogrwydd yn Siart Recordiau Pop Prydain. Cryn gamp. Disgwylir tua 18,000 o gynulleidfa am y tair noson.

---



**Iestyn Camwy** wrth ei fodd yn haul poeth yr Eisteddfod. Ef yw mab Miriam a Gareth Tilsley, Caerdydd, ac ŵyr i Benito a Beatriz Jones, Gaiman.

# Yng Nghlust y Teleffôn

• ***Llongyfarchiadau*** i bwyllgor Porth Madryn, dan gadeiryddiaeth Delia Evans, am drefnu eu heisteddfod gyntaf ac i Sion Davies a Nanci Jones am arwain y rhan Gymraeg. Alejandro Jones o Drevelin a enillodd y gystadleuaeth Emyn agored, a chôr o Borth Madryn y brif gystadleuaeth gorawl.

• ***Cydymdeimlwn*** â chwi yn eich colledion diweddar:
15 o Fai – Sulwena Pryce (86 oed), Buenos Aires. Wedi graddio fel nyrs yn yr Ysbyty Prydeinig yno ac wedi gweithio yno am flynyddoedd.
18 o Orffennaf - Myfanwy Rees de O'Connor, (85 oed), Trelew (gynt o ardal y Gaiman).
26 o Orffennaf- Enid Halley Davies de Evans, (94 oed), Trelew (chwaer i Delma Williams).
27 o Orffennaf - Jorge Awstin - yn Esquel. Roedd yn is-gadeirydd y Gymdeithas Gymraeg a gweithiodd yn galed i sicrhau bod adeilad presennol yr Ysgol Gymraeg yn cael ei gwblhau ac yn lle teilwng i'w chynnal.
3ydd o Awst 2004 Deborah Thomas, (89 oed), brodor o Bryn Gwyn ac aelod ffyddlon o Eglwys Seion Bryn Gwyn.
15fed o Awst 2004 bu farw Megan Llwyd Jones de Pugh yn 81 oed. Roedd hi yn byw yn ardal Bethesda ac wedi bod yn gyfrifol am y Band of Hope i baratoi y cyngerdd Nadolig yn Nghapel Bethesda am flynyddoedd. Byddai hefyd yn anfon newyddion yr ardal i raglen radio Cymdeithas Camwy. Byddai'n hoffi adrodd a chymerodd ran yn nghyngerdd Gŵyl y Glaniad Capel Bethesda.

***Gwellhad buan*** i Ellis W Roberts, Trelew, a Lizzie Lloyd, Esquel.

***Dathlu penblwyddi:***Esquel: mam Aira Hughes yn 87; Olga Roberts (92), Alfred Austin (91), Rhoswen Austin (89), Lena Freeman (87), Gwili Griffiths (85), Trevelin: Tecwyn Williams ac Ann Griffiths (87)

***Cyhoeddi'r llyfr*** *Patagonia Gringa* o waith Iris Lloyd yn Buenos Aires ar Fai 27.

***Deallwn fod:***

●Gabriel Restuccia a Carlos Casni, Gaiman wrthi'n cwblhau Geiriadur Cymraeg-Sbaeneg, Sbaeneg-Cymraeg.

●Cymdeithas Cymru-Ariannin yn rhoi £1,500 tuag at Gylch Cymraeg Trelew i brynu adeilad i ddatblgyu addysg Gymraeg yn yr ardal.

●fod y Gymdeithas hefyd yn rhoi rhodd o lechen o Chwarel y Penrhyn Bethesda, ar gyfer canmlwyddiant Capel Bethesda, Dyffryn Camwy.

---

**Seion, Esquel, 2004**

Fe daniwyd yma fflam o Gymru fach
Wrth droed mynyddoedd hardd yr Andes iach
A'r fflam yn araf gydiodd yn y fro
A'i gwres hi a ymledodd yn ei dro.
A thyfu a wnaeth hon yn goelcerth gref
I warchod gwerthoedd gorau un y dref.
Bu cenedlaethau maith o deulu Duw
Yn gweithio i gadw'r fflam yn goch a byw.
A mawr ein clod i chi, ffyddloniaid lu
A ddaliodd at y gwaith er c'leted fu.
Ac wrth i chithau ddathlu'r llwyddiant hwn
Mor bell oddi wrthym, yn sicr gwn,
Yma yng Nghymru, bod eich croeso chi
Yn dal i dwymo ein calonnau ni. *Beryl Griffiths,Llanuwchllyn*

## Cystadleuaeth

**Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Eryri a'r Cyffiniau, 2005**

i rai sydd wedi byw yn y Wladfa ar hyd eu hoes ac yn dal i fyw yn Yr Ariannin:

**Dygymod â'r elfennau yn Y Wladfa**

| | |
|---|---|
| Gwobr: | £200 (Gwobr Goffa Shân Emlyn) |
| Beirniad: | Glyn Evans |
| Dyddiad cau: | Ebrill 1 2005 |

**Noson Patagonia**

**Nos Sadwrn, Medi 11 Tŷ Tawe, Abertawe 8.00pm**





**Llenyddiaeth, cerddoriaeth a bwyd o'r Wladfa**

Darlleniad o *Y Gaucho o'r Ffos Halen* gan Gareth Miles

**Y gitarydd Rhisiart Arwel**

**a'r delynores Heledd Mitchell a mwy!**

**Tocynnau: £5**

Elw tuag at addysg Gymraeg yn Nhrelew, Patagonia



**Am ragor o fanylion ac i archebu tocynnau, cysylltwch ag Eiry Miles: (01792) 469897**

## ???

Chwiliwch am yr atebion cywir yn y papur hwn. Os anfonwch at y Golygydd erbyn Tachwedd 5, 2004 (gan roi eich enw) rhoir eich ymgais mewn het a'r ymgais gywir gyntaf a dynnir ohoni gaiff gyhoeddi ei enw yn y rhifyn nesaf o'r *Hen Wlad*.

1.Enwch y côr buddugol.
2.Daw i ben yn fuan yn ei ffurf bresennol.
3. Beth sydd i'w gael yn rhad ac am ddim?
4. Cymerodd ddwy flynedd i wneud y gamp.
5. Beth wnaeth Brynach?
6. Un o Rosllannerchrugog.
7. Dau sy'n cydweithio gyda'i gilydd ar waith pwysig.
8. Pwy sy'n weithiwr caled?
9. Pwy sydd wedi gwneud rhywbeth am y tro cyntaf?
10. Beth wnaeth y dyn hwn yn 1970?